**RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD DYLAN EDWARDS - CYNGOR 19 MEHEFIN 2008**

**MAES AWYR LLANBEDR GWYNEDD**

**"Y mae datblygu maes awyr Llanbedr, Meirionnydd, fel maes awyr sifil, yn hynod o bwysig i gynnal ac i atgyfnerthu ac i ddatblygu economi a thrafnidiaeth sir Gwynedd.**

**Gofynnaf i Gyngor Gwynedd gefnogi'r bwriad mewn egwyddor i ddatblygu maes awyr Llanbedr yn faes awyr sifil ac i gyfleu'r gefnogaeth honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri"**

**Ymateb gan y Gyfadran Datblygu:**

1.1 Yn dilyn cyhoeddiad y Weinyddiaeth Amddiffyn fod Maes Awyr Llanbedr i gau yn 2005 a bod 160 o weithwyr i golli eu swyddi, mae’r Gwasanaeth Economi ac Adfywio wedi cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo’r maes awyr ac adnabod defnydd addas fyddai’n arwain at greu cyfleon cyflogaeth newydd i’r ardal.

1.2 Er mwyn hwyluso’r datblygiad penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad brynu’r safle a’i farchnata ar gyfer defnydd maes awyr a chyflogaeth. Yn dilyn proses o asesu diddordeb, mae’r Cynulliad wedi cynnig les hir dymor i gwmni Kemble sydd gyda phrofiad o redeg maes awyr tebyg iawn i Llanbedr yn y Cotswolds.

1.3 Bwriad y Cwmni ydi rhedeg maes awyr masnachol a gwneud defnydd o’r adeiladau segur ar y safle fel unedau ar osod i fusnesau. Amcangyfrifir y bydd hyd at 35 o bobl yn cael eu cyflogi ar y safle yn uniongyrchol drwy’r gwahanol fentrau i gychwyn, gyda llawer mwy o swyddi anuniongyrchol yn cael eu creu yn yr ardal wedyn.

1.4 Rhaid pwysleisio nad oedd Cyngor Gwynedd yn rhan ffurfiol o gwbl o’r broses o lunio’r briff ar gyfer y defnydd na’r broses o asesu’r datganiadau o ddiddordeb a dewis tenant ar gyfer y safle. Nid Cyngor Gwynedd ychwaith ydi’r awdurdod cynllunio i’r ardal.

1.5 Serch hynny, o ystyried pwysigrwydd y safle i’r ardal, mae swyddogion y Cyngor wedi bod mewn cysylltiad gyda’r Cynulliad drwy gydol y broses ac wedi cefnogi, mewn egwyddor, y defnydd arfaethedig, fel modd o greu cyfleon cyflogaeth o ansawdd i’r ardal a chynnal cymunedau byw a chynaladwy o fewn y Parc Cenedlaethol.

1.6 Wrth asesu’r defnyddiau posib ar gyfer y safle, roedd effaith ar yr amgylchedd a’r cymunedau lleol yn amlwg yn ystyriaethau pwysig, ond ystyriwyd y byddai’r defnyddiwr arfaethedig yn lleihau’r effeithiau andwyol ar y Parc Cenedlaethol o’i gymharu â’r defnyddiwr tir blaenorol.

1.7 Byddwn yn barod iawn felly, i gefnogi’r cynnig, ac argymell fod Cyngor Gwynedd yn cysylltu gyda Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Parc

Cenedlaethol Eryri, er mwyn datgan cefnogaeth, mewn egwyddor, i faes awyr sifil yn Llanbedr er mwyn creu cyfleon gwaith o ansawdd yn ardal Meirionnydd.

**NOTICE OF MOTION FROM COUNCILLOR DYLAN EDWARDS**
**FULL COUNCIL 19 JUNE 2008**

**LLANBEDR AIRPORT GWYNEDD.**

**"The development of Llanbedr airport, Meirionnydd, as a civil airport is extremely important in order to maintain, reinforce and develop the economy and transport of the county of Gwynedd.**

**I ask Gwynedd Council to support the proposal to develop Llanbedr airport as a civil airport, in principle, and to convey this support to the National Assembly for Wales and the Snowdonia National Park Authority."**

**Response of the Development Directorate**

1.1 Following the announcement by the Ministry of Defence that Llanbedr Airfield was to close in 2005 and that 160 workers were to lose their jobs, the Economy and Regeneration Service has supported the Welsh Assembly Government's efforts to promote the airfield and identify suitable uses that would lead to new employment opportunities in the area.

1.2 In order to facilitate the development the Assembly Government decided to purchase and market the site for aviation and employment uses. Following a process assessment, the Assembly has offered a long term lease to Kemble, a company that has experience of running a similar airfield to Llanbedr in the Cotswolds.

1.3 The Company proposes to operate a commercial airfield and make use of the redundant buildings on the site as units to-let for businesses. It is estimated that up to 35 people will be employed directly on the site through the various enterprises initially, with more indirect jobs created in the area thereafter.

1.4 It must be emphasised that Gwynedd Council was not formally part of the process of developing the brief for the use and was not part of the process of assessing the expressions on interests and selecting a tenant for the site. Gwynedd Council is not either the planning authority for the area.

1.5 However, in view of the importance of the site, Council Officers have been in contact with the Assembly throughout the process and has supported, in principle, the proposed use, as a means of creating new employment opportunities to the area and sustain living and sustainable communities within the National Park.

1.6 In assessing possible uses for the site, the impact on the environment and local communities were obviously important considerations, but it was considered that the proposed user would have reduced detrimental impact on the National Park compared to the previous land user.

1.7 I therefore fully support the motion and recommend that Gwynedd Council contact the Assembly Government and Snowdonia National Park Authority, to express support, in principle, to a civilian airfield in Llanbedr in order to create quality employment opportunities in Meirionnydd.